# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD MAWRTH, 27AIN CHWEFROR, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 19 Chwefror 2024)

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

**AELODAETH (15)**

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Olaf Cai Larsen
Gwynfor Owen
Arwyn Herald Roberts
Sedd Wag - Plaid Cymru

Linda Ann Jones
Edgar Wyn Owen
Llio Elenid Owen
Beca Roberts

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Eryl Jones-Williams
Sedd Wag - Annibynnol

Anne Lloyd-Jones
Dewi Owen

### Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd

Stephen Churchman

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 14eg o Dachwedd 2023, fel rhai cywir.

**5. CALENDR PWYLLGORAU 2024/25** 9 - 11

Argymell y Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2024/25 i’r Cyngor Llawn ei fabwysiadu.

**6. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR** 12 - 14

Gofynnir i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi’r sylwadau a derbyn yr adroddiad.

**7. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU** 15 - 24

Rhoi diweddariad o’r ddarpariaeth *Dysgu a Datblygu* i Aelodau, gan amlygu rhwystrau presennol i gyflwyniad y rhaglen.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH, 14/11/23

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:** Dewi Owen (Cadeirydd), Anwen J. Davies, Annwen Hughes, Eryl Jones Williams, Linda Ann Jones, Olaf Cai Larsen, Anne Lloyd-Jones, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen a Beca Roberts.

**Swyddogion:** Ian Jones (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol), Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth) a Ffion Elain Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Menna Trenholme (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

Ar ddechrau'r cyfarfod, cydymdeimlodd y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, gyda theulu a chydweithwyr Carey Cartwright, Rheolwr y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu a oedd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor hwn yn rheolaidd.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Stephen Churchman a'r Cynghorydd Arwyn Herald Roberts.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ni godwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 15fed o Fehefin 2023, fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yr adroddiad gan egluro mai'r panel sy'n gyfrifol am osod lefel cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorwyr. Nodwyd bod eu rôl yn gwbl annibynnol a'u bod yn cyhoeddi adroddiad yn flynyddol ym mis Hydref er mwyn amlinellu'r bwriad ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 esboniwyd nad yw'r panel wedi awgrymu unrhyw newidiadau mawr ond eu bod yn cynnig cynyddu'r lwfans sylfaenol a gynigir i Gynghorwyr a byddai hynny'n daladwy o fis Ebrill 2024 ymlaen. Byddai cynnydd yn y swm a gynigir i'r Cynghorwyr sy'n derbyn uwch gyflogau hefyd.

Eglurwyd mai'r prif newid arall yw bod y panel wedi rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â thaliadau ar gyfer aelodau cyfetholedig. Esboniwyd bod y trefniadau cyfredol yn nodi y dylai aelodau cyfetholedig gael cydnabyddiaeth ariannol ar sail diwrnod neu hanner diwrnod. Ond yn sgil newidiadau i arferion gwaith, megis cyfarfodydd brifio amlach ar-lein ayyb, eglurwyd bod y panel yn ystyried cynnig hyblygrwydd wrth dalu aelodau cyfetholedig, gan gynnwys talu fesul cyfradd yr awr.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith bod chwe chwestiwn wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad a gofynnodd a byddai modd i'r pwyllgor roi sylwadau ar y gwahanol agweddau fesul cwestiwn er mwyn gallu defnyddio'r sylwadau i baratoi ymateb i ymgynghoriad y panel.

- *Cwestiwn 1: Cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd a chydnabyddiaeth ariannol ddigonol i gynrychiolwyr?*
    - Nodwyd bod yr hyn a gynigir gan y panel yn ymddangos yn ddigon fforddiadwy o'i gymharu â chyllideb y Cyngor yn ei gyfanrwydd ac felly ei fod yn ymddangos yn ddigon teg.

- *Cwestiwn 2: Barn ar hyblygrwydd taliadau i Aelodau Cyfetholedig?*
    - Cytunodd yr Aelodau bod y rhesymeg tu ôl i newid y ffordd mae'r Aelodau Cyfetholedig yn cael eu talu yn gwneud synnwyr o ystyried y modd y mae amgylchiadau'r gwaith wedi newid ac yn digwydd yn fwy darniog a chyson erbyn hyn.
    - Canmolwyd hyblygrwydd y system a'r modd y mae posib iddi gael ei newid pan fo amgylchiadau newydd yn codi.

- *Cwestiwn 3: Arferion da ynghylch defnyddio pwerau'r panel i annog mwy o deithio cynaliadwy ymhlith aelodau?*
    - Nodwyd bod yr opsiwn o weithio'n hybrid bellach yn arwain at weithio'n fwy cynaliadwy a bod rhoi'r dewis i gynghorwyr yn ffordd dda ymlaen.
    - Holwyd cwestiynau am y sefyllfa o ran yswiriant os yn rhannu car gyda chynghorydd arall er mwyn mynychu cyfarfodydd. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod angen newid yr yswiriant i un sy'n nodi teithiau busnes er mwyn gallu ei ddefnyddio yn rhinwedd y swydd.
    - Tynnwyd sylw at y ffaith bod costau teithio sylweddol uwch yn mynd ar wneud gwaith o amgylch y ward os ydynt yn byw mewn ward gwledig o'i gymharu â ward trefol ac nad oes cydnabyddiaeth yn cael ei roi i hynny.

- *Cwestiwn 4: Ymwybyddiaeth o hawliau Cynghorwyr am ad-daliadau a'r camau i wella hynny.*
    - Nododd y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith bod gwybodaeth am hawliau'r Cynghorwyr i'w gael ar y Mewnrwyd Aelodau ac yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth. Holwyd pa gamau pellach y gellid eu cymryd er mwyn codi ymwybyddiaeth y Cynghorwyr am y gwahanol hawliau sydd ganddynt?
    - Mewn ymateb, nodwyd er nad oedd rhai Cynghorwyr yn ymwybodol o'i holl hawliau, byddent yn gwybod gyda phwy i gysylltu petai problem yn codi a bod swyddogion ar gael i ateb unrhyw gwestiwn.
    - Tynnwyd sylw at y ffaith bod llawer o wybodaeth yn cael ei ddarparu gyda'i gilydd i'r Cynghorwyr ar ddechrau'r cyfnod yn dilyn yr etholiad a bod hynny'n gallu bod ychydig yn llethol. Nodwyd y byddai ail-anfon darnau o wybodaeth er mwyn atgoffa'r Cynghorwyr yn fuddiol.
    - Cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith y byddai ail-anfon gwybodaeth yn fuddiol ond anogodd yr aelodau i wneud defnydd o'r Bwletin Aelodau wythnosol gan fod llawer o wybodaeth arno.

- Penderfynwyd peidio holi'r aelodau am eu barn ar gwestiwn 5 gan ei fod yn fwy perthnasol i aelodau Cynghorau Tref a Chymuned.

- *Cwestiwn 6: Barn am adroddiadau i'r dyfodol i gyfuno costau teithio a chynhaliaeth aelodau yn hytrach na fesul unigolyn?*
    - Eglurwyd bod y panel wedi awgrymu adrodd ar gostau teithio a chynhaliaeth aelodau fel lwmp swm fesul Cyngor ar gyfer y dyfodol yn hytrach na fesul aelod fel sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.
    - Mewn ymateb, nodwyd bod darparu'r wybodaeth fesul aelod unigol yn golygu bod yr aelodau hynny sy'n byw bellaf o Gaernarfon yn cael eu cysylltu gyda chostau teithio uchel.
    - Os mai'r bwriad yw sicrhau nad yw aelodau unigol yn cael eu cysylltu gyda chostau teithio uchel, mynegwyd cefnogaeth i'r newid gan fod adrodd ar y wybodaeth fesul aelod unigol yn gallu bod yn annheg ar y rheini sy'n gorfod teithio bellaf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chyflwyno sylwadau'r pwyllgor er mwyn llunio ymateb i ymgynghoriad adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.**

## 6. BLAENORIAETHAU'R PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH – DIWEDDARIAD

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yr adroddiad gan atgoffa'r pwyllgor bod pedwar maes blaenoriaeth wedi'u hamlinellu i dderbyn sylw yn ystod 2023/24 sef diogelwch a chefnogaeth i Gynghorwyr; sgyrsiau datblygiad personol; edrych ar drefniadau craffu a Chyngor di-bapur.

O ran yr elfen diogelwch a chefnogaeth i gynghorwyr, eglurwyd bod gwybodaeth am faterion diogelwch a lles yn cael ei ddarparu ar y Mewnrwyd Aelodau a bod diweddariad rheolaidd yn cael ei roi am y maes yn y Bwletin Aelodau. Nodwyd nad oedd llawer o Gynghorwyr yn ymwybodol o'r bwletin ac y byddai'n ddefnyddiol cael barn aelodau'r pwyllgor o sut y gellir sicrhau gwell defnydd o'r Mewnrwyd Aelodau a'r bwletin wythnosol er mwyn cyfathrebu negeseuon allweddol pwysig.

Esboniwyd bod pob aelod wedi derbyn gwahoddiad i fanteisio ar Sesiwn Ymgynghorol sef sgwrs anffurfiol gydag arbenigwr o'r maes Dysgu a Datblygu i drafod eu rôl fel aelod. Nodwyd mai prin yw'r defnydd ohonynt hyd yma ac felly atgoffwyd yr aelodau bod angen cysylltu gyda'r Swyddog Datblygu Aelodau er mwyn trefnu'r sesiwn.

Yng nghyd-destun y symudiad i fod yn Gyngor di-bapur, eglurwyd bod datblygiadau wedi bod dros yr haf. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r ffaith nad yw hyn wedi bod yn symudiad hawdd a diolchwyd i'r aelodau am eu cydweithrediad ar y mater. Atgoffwyd bod modd i'r aelodau gysylltu os yn dymuno derbyn sgrin ychwanegol neu drefnu slot hyfforddiant 1:1 er mwyn dod i ddeall y cyfarpar.

O ran datblygiadau eraill, eglurwyd bod newidiadau wedi'i gwneud i'r system sain yn Siambr Hywel Dda yn sgil sylwadau gan Gynghorwyr. Rhoddwyd trosolwg o'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i aelodau hefyd.

*Materion a godwyd yn ystod y drafodaeth:*

- Diolchwyd i'r adran am y gefnogaeth.

- O ran y symudiad i fod yn gyngor di-bapur, mynegwyd gwerthfawrogiad o'r ffaith bod yr adran wedi trafod yn unigol gyda'r unigolion sy'n parhau i dderbyn copïau papur.
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod problemau signal mewn rhai ardaloedd gwledig yng Ngwynedd a bod hyn yn gallu bod yn broblematig wrth geisio darllen dogfennau ar-lein.
- Nodwyd bod diogelwch a chefnogaeth i gynghorwyr yn bwysig a bod angen bod yn rhagweithiol wrth sicrhau blaenoriaeth i'r maes. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth y byddai'r mater yn faes blaenoriaeth am beth amser.
- Mynegwyd syndod am gyn lleied o'r aelodau sy'n mynychu hyfforddiant a chwestiynwyd a yw'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd ei angen ar gynghorwyr?
    - Mewn ymateb, nodwyd bod yr adran yn deall bod galwadau uchel ar y cynghorwyr ond eu bod yn cael eu hannog i fynychu'r sesiynau hyfforddiant.
    - Tynnwyd sylw at y ffaith mai un o flaenoriaethau'r Cyngor newydd oedd cynyddu'r amrywiaeth oedd ar y Cyngor a bod hyn yn golygu bod gan fwy o gynghorwyr gyfrifoldebau eraill bellach megis swyddi llawn amser a gofal plant. Nodwyd bod angen cadw hyn mewn cof wrth ystyried y niferoedd sy'n mynychu hyfforddiant.
- Holwyd a oes gostyngiad wedi bod yn y nifer sy'n mynychu hyfforddiant dros y blynyddoedd a sut mae hyn yn cymharu gydag awdurdodau eraill?
    - Nododd y Swyddog Datblygu Aelodau ei bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chynghorau Ynys Môn a Chonwy ac nad oedd hi'n credu bod Gwynedd yn gwneud yn ddrwg o ran hyfforddiant.
    - Nodwyd bod gan Wynedd nifer o aelodau profiadol sydd ddim yn gweld yr angen i ddod i hyfforddiant bellach a bod angen canolbwyntio ar y cynghorwyr newydd.
    - Eglurwyd bod yr hyfforddiant yn cael eu categoreiddio ar y Mewnrwyd yn deitlau craidd ayyb a bod gwaith yn cael ei wneud ar baratoi llyfr a fyddai'n symleiddio hyn ymhellach.
- Canmolwyd yr hyfforddiant siarad yn gyhoeddus gan nodi ei fod wedi bod yn fuddiol iawn.
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod rhai aelodau wedi arfer cwrdd fel criw o gynghorwyr sy'n ferched yn y gorffennol a bod hynny wedi bod yn fuddiol.
    - Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith bod y cyfarfodydd hynny wedi dod i ben tra roedd diffyg adnoddau ond bod bwriad i ail-gydio yn y sesiynau hynny.
    - Cynigwyd efallai y gellid edrych ar gynnal sesiynau i gynghorwyr sy'n ferched a chynghorwyr sy'n newydd er mwyn iddynt gael cyfle i drafod gwahanol faterion mewn modd mwy anffurfiol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r wybodaeth.**

## 7. FFRAMWAITH CEFNOGAETH I AELODAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan egluro bod sicrhau cefnogaeth i Gynghorwyr wedi bod yn allweddol yng Nghyngor Gwynedd ers tro. Trwy gymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) mae'r Cyngor yn cydweithio a chymharu gydag awdurdodau lleol eraill gan ddysgu ac elwa o'u profiadau. Erbyn hyn, eglurwyd bod y CLILC wedi datblygu Fframwaith Hunanasesu gwirfoddol sy'n cynnig meysydd gwahanol y gall cynghorau ganolbwyntio arnynt er mwyn hunan-arfarnu eu perfformiad. Nodwyd bod dogfen ymgynghorol wedi'i datblygu gan y gymdeithas a bod Cyngor Gwynedd wedi sicrhau cyfle i gyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghorol.

Esboniwyd bod Cyngor Gwynedd yn awyddus i gynllunio er mwyn symud y gwaith yn ei flaen yn dilyn derbyn y fframwaith terfynol. Argymhellwyd bod grŵp bach o aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn cwrdd i asesu'r canlynol o'r fframwaith terfynol:

- A yw'r Cyngor yn gyfrifol am y maes neu beidio?
- Perfformiad cyfredol y Cyngor yn erbyn disgwyliadau'r fframwaith.
- A yw'n flaenoriaeth gan y Cyngor?
- A oes camau gwella posib.

Eglurwyd y gellir defnyddio'r camau uchod i greu rhaglen waith o welliannau gan ddefnyddio'r fframwaith fel sail er mwyn adnabod materion i'w blaenoriaethu. Nodwyd y byddai hyn yn fan cychwyn effeithiol ond pwysleisiwyd y byddai'n rhaid defnyddio'r fframwaith yn synhwyrol gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael gan y Cyngor.

Materion a godwyd yn ystod y drafodaeth:-

- O ran creu'r grŵp bach, eglurwyd y byddai'r Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn cysylltu gyda'r cynrychiolwyr cyn gynted ag y bo'n amserol ar ôl i'r fframwaith fod yn derfynol.
- Cynigwyd bod y Cynghorwyr Dewi Owen, Beca Roberts, Anne Lloyd-Jones a Cai Larsen yn ffurfio'r grŵp.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yh a daeth i ben am 2.20yh.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **DYDDIAD** | **27 Chwefror 2024** |
| **PWNC** | **Calendr Pwyllgorau 2024/25** |
| **PWRPAS** | **Argymell y Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2024/25 i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu** |
| **AWDUR** | **Annes Sion**<br>**Arweinydd Tim Democratiaeth** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2024/25 er eich sylwadau cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 3ydd o Fawrth.

1.2 Mae'r Calendr yn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.

1.2 Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.

1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.

1.4 Ymgynghorwyd â swyddogion perthnasol ynghyd a Awdurdod Parc Cenedlaethol ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro a chyfarfodydd eraill. Yn ychwanegol, rydym wedi ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro gyda dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd er nad yw holl ddyddiadau 2024/25 yn wybyddus eto.

## 2.0 CALENDR PWYLLGORAU 2024/25

2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2024/25.

2.2 Noder fod dyddiadau'r holl gyfarfodydd wedi llithro ychydig o gymharu â blwyddyn arferol yn sgil Etholiad Comisiynydd yr Heddlu sy'n cael ei gynnal ar 2 Mai 2024. O ganlyniad ni fydd cyfarfod Cyntaf y Cyngor tan yr wythnos ganlynol 9 Mai 2024.

2.3 Gweler fod dyddiad wrth gefn ar gyfer Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn ar gyfer mis Medi, gan y bydd angen cyfarfod ar gyfer trafod systemau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Bydd hyn yn ddarostynedig i benderfyniad y Cyngor llawn ynghylch rhaglen waith system Pleidlais Sengl drosglwyddadwy sydd i'w drafod ar y 7fed o Fawrth, 2024.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Argymell i'r Cyngor Llawn dderbyn y Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2024/25.

| 2024/25 | Amser cyfarfod | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR** | pm | 9* | | 4 | | (19***) | 3 | | 5 | | | 6 | | 1* |
| Cabinet | pm | 14 | 11 | 9 | | 17 | 15 | 5 / 26 | 17 | 21 | 11 | 11 | 8 | |
| Pwyllgor Craffu – Addysg ac Economi | am / pm | | | 11 | | | 17 | | 12 | | 13 | | 10 | |
| Pwyllgor Craffu - Cymunedau | am / pm | 16 | | | | 12 | | 7 | | 23 | | 20 | | |
| Pwyllgor Craffu - Gofal | am / pm | | 13 | | | 26 | | 21 | | 30 | | | 3 | |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Llywodraethu | am | 23 | | | | 5 | 10 | 28 | | 16 | 6 | | | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth | am / pm | | 18 | | | | | 12 | | | 18 | | | |
| Pwyllgor Cynllunio | am / pm | 20 | 24 | 29 | | 9 / 30 | 21 | 18 | 9 | 13 | 3 | 3 / 24 | 28 | |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | am | | 10 | | | 23 | | | 2 | | | 10 | | |
| Pwyllgor Safonau | am | | 17 | | | | | 4 | | | 17 | | | |
| CYSAG | pm | | | 2 | | | | 19 | | | 4 | | | |
| Pwyllgor Iaith | am | | 25 | | | | 22 | | | 28 | | | 29 | |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol | am | | | | | | | | | | | | | |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | am / pm | 17 | 21 | 12 | | 13 | 11 | 15 | 13 | 17 | 21 | 14 | 11 | |
| Pwyllgor Pensiynau | pm | | 17 | | | 16 | | 25** | | 20 | | 17 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog | yr hwyr | | | | | | 1 | | | | | 4 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli | yr hwyr | | | | | | 8 | | | | | 11 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi | am | | | | | | 15 | | | | | 18 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw | pm | | | | | | 22 | | | | | 25 | | |

*Cyfarfod Blynyddol

**Pwyllgor Pensiynau (am) / Cyfarfod Blynyddol (pm)

***Dyddiad wrth gefn ar gyfer Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor i drafod y system pleidlais sengl drosglwyddadwy

Amser cyfarfod (yn ôl yr angen) **am** – bore **pm** – prynhawn **am/pm** – trwy'r dydd

**Dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.**

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 27 Chwefror 2023 |
| **Pwnc** | Cefnogaeth i Gynghorwyr |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Annes Sion |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Mae'r Tîm Democratiaeth yn gweithio yn galed er mwyn sicrhau cefnogaeth lawn i Gynghorwyr. Er mwyn sicrhau'r gefnogaeth briodol rydym yn holi eich barn yn gyson.

2. Rydym yn awyddus i fod yn gwella ein gwasanaeth yn barhaus ac yn darparu'r gefnogaeth sydd ei angen ar gyfer Cynghorwyr. Felly, roedd yn amserol i ofyn am adborth ar y gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig gan y tîm democratiaeth yn benodol.

3. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau, am fodlonrwydd gyda gwaith y tîm ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau y gallai'r tîm ei wneud i'r dyfodol. Bu i 31 Cynghorydd ymateb i'r holiadur yn llawn gan nodi eu barn am wasanaeth y tîm.

4. Nododd 91% fod y gwasanaeth yn dda iawn, neu'n dda gyda 1 yn nodi ei fod yn dderbyniol, a 2 heb ateb y cwestiwn.

5. Derbyniwyd nifer o sylwadau ychwanegol, a oedd yn cynnwys yr isod:

*"Popeth yn digwydd yn ddi-lol. Papurau ar amser, pwyllgorau ac yn y blaen yn rhedeg yn esmwyth. Llawer o waith yn digwydd yn y cefndir gan y tîm yn ddistaw ac yn effeithiol"*

*"Dw i'n cael y papurau i'w darllen mewn da bryd. Gwn hefyd y medraf holi am help os oes problem neu rywbeth dw i ddim yn deall.*
*Braf yw teimlo bod rhywle i droi am gyngor / help "*

*"teimlo fy mod I yn nabod y swyddogion yn well na unrhyw tîm arall ac yn gallu gofyn cwestiynau 'yep' heb fy meirniadu. - lot o gefnogaeth ac yr swyddogion Wedi helpu fi yn bersonol mewn nifer o ffyrdd"*

*"Gwasanaeth effeithiol, staff cydwybodol a hoffus iawn"*

6. Roedd yr unigolyn a nododd fod y gwasanaeth yn "dderbyniol" wedi cynnig sylwadau oedd yn berthnasol i Adran wahanol, ac felly nid oedd ei sylwadau yn adlewyrchu gwasanaeth y tîm. Byddaf yn trefnu i gael sgwrs uniongyrchol er mwyn cael barn yr unigolyn am waith y tîm.

7. Holwyd a oes unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau y gall y tîm eu gwneud i gefnogi Cynghorwyr ymhellach yn eu rôl. Nododd y mwyafrif nad oedd unrhyw ddatblygiad ei angen. Fodd bynnag ymhlith yr ymatebion nododd un fod angen gwell cysondeb ar wybodaeth am benodiadau Cynghorwyr i Gyrff Allanol. Amlygwyd yr angen i ddiweddaru'r wybodaeth yn gyson i sicrhau ei fod yn gyfredol. Rydym fel tîm wedi cychwyn edrych ar y gwaith diweddaru a sicrhau fod trefniadau mewn lle i ddiweddaru yn gyson.

8. Ymhlith y sylwadau eraill nododd un fod angen cymorth gyda rheoli e-byst ac i dderbyn hyfforddiant pellach am hyn. Bu i ni anfon y cais yma ymlaen i'r tîm dysgu a datblygu.

9. Mynegodd un aelod anfodlonrwydd o fynd yn ddi-bapur. Noder fod y camau i fod yn ddi-bapur yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn er mwyn lleihau ein ôl troed carbon a gwireddu arbedion drwy leihau costau argraffu a phostio. Rydym yn deall fod newid arferion yn gallu bod yn heriol, ond gobeithiwn dros amser y bydd yn mynd yn haws. Byddwn yn trafod gyda'r unigolyn i weld os oes modd i gynorthwyo'r Cynghorydd gyda'r newid hwn.

10. Bu i unigolyn arall nodi eu bod yn hapus gyda gwasanaeth y tîm, fodd bynnag amlygwyd anfodlonrwydd gyda'r drefn Cabinet yn benodol. Rhaid pwysleisio mai dyma'r drefn statudol sy'n bodoli ac nad oes unrhyw gamau y gall y tîm eu cymryd i newid y drefn hon.

11. Amlygwyd hefyd fod rôl Cynghorydd yn gallu bod yn heriol, ac y dylid trin Cynghorwyr yn barchus gan gofio fod gan pawb deimladau. Roedd cais i Gynghorwyr gofio trin y naill a'r llall yn barchus bob tro. Mae hyn yn gyfle i ni eich atgoffa o'r amrywiaeth o gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer materion iechyd meddwl, neu bygythiadau gan y cyhoedd er enghriafft. Mae'r deilsen 'Edrych ar ôl dy hun' ar y mewnrwyd aelodau yn hynod bwysig a gofynnir i aelodau'r pwyllgor atgoffa eich cyd-aelodau o gynnwys y mewnrwyd a'r deilsen honno.

12. Bu i ni dderbyn barn fod yr holiadur o bosib yn fwy perthnasol i'r Cynghorwyr newydd sy'n parhau i setlo i'w rolau newydd. Ond gan ein bod yn awyddus i wella ein gwasanaeth ac ateb gofynion yr holl Gynghorwyr yn barhaus mae'n holl bwysig ein bod yn holi'r holl aelodau am y gefnogaeth sydd ar gael.

13. Yn ogystal a'r holiadur electroneg sy'n cael ei yrru at Gynghorwyr un waith y flwyddyn, byddwn yn ail afael yn ein trefniadau i gynnal sgwrs gyda 2 neu 3 Cynghorydd bob mis er mwyn trafod y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig i chi a chael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau.

**Cynghorwyr Benywaidd**

14. Fel rhan o weithgareddau'r rhaglen Hybu Amrywiaeth mewn Democratiaeth, rhoddwyd trefniadau mewn lle yn ystod tymor y Cyngor diwethaf i gynnal sesiynau penodol ar gyfer Merched sy'n Gynghorwyr. Mae'r sesiynau anffurfiol (sgwrs dros baned) wedi cynnig gofod diogel lle mae'r Cynghorwyr wedi cael cyfle i

• gefnogi ei gilydd a chymharu profiadau a dysgu oddi wrth y naill a'r llall
• drafod rhwystrau neu faterion sy'n eu poeni a chynnig datrysiadau.

15. Cynhaliwyd dau gyfarfod, cyn y Nadolig, ond rhaid nodi mai isel iawn oedd y niferoedd a fynychodd ac felly ni lwyddwyd i gynnal y sgyrsiau yn llwyddiannus. Gobeithiwn gynnal sesiwn eto yn ystod dechrau mis Mawrth.

**Argymhelliad**

**16.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 27 Chwefror 2024 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **PWRPAS** | Rhoi diweddariad o’r ddarpariaeth *Dysgu a Datblygu* i Aelodau, gan amlygu rhwystrau presennol i gyflwyniad y rhaglen. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gwahoddir y Pwyllgor i gynnig unrhyw awgrymiadau pellach cyn derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Catrin Love, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol |

**1 Trosolwg**

1.1 Wrth edrych ymlaen tuag at flwyddyn ariannol newydd sydd yn llawn heriau, mae’n fwy amserol nac erioed i fod yn adolygu a rhesymoli y trefniadau Dysgu a Datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig, a hynny yn union yn yr un modd a sy’n digwydd i staff hefyd. Daw hyn ar gefn tymor hynod o heriol i'r Tim Dysgu a Datblygu.

1.2 Llynedd fe atgyfodwyd hyfforddiant wyneb i wyneb i Aelodau Etholedig, ac er fod y mwyafrif helaeth yn parhau i ddigwydd yn rhithiol, mae’r ddarpariaeth bellach yn gymysg o rhithiol a wyneb yn wyneb gyda rhai teitlau penodol angen eu cynnal wyneb i wyneb.

1.3 Mae’r rhaglen hyfforddiant yn esblygu a thyfu’n barhaus, ac rydym erbyn hyn yn ymgynghori gyda Phenaethiaid a Swyddogion ar gynnwys rhaglen 2024/25. Serch hynny mae rhai materion yn codi sydd angen sylw wrth symud ymlaen ac fe’i tynnir i’ch sylw yn rhan nesaf yn adroddiad.

1.4 Byddwn hefyd yn cynnwys teitlau ar gais Aelodau, ac yn croesawu unrhyw awgrymiadau pellach.

**2 Rhaglen Hyfforddiant 2023/24**

2.1 Fe welir rhaglen gyflawn 2023/24 yn Atodiad 1, a rhaglen arfaethedig 24/25 yn Atodiad 2.
Mae’r materion sydd wedi codi wrth geisio gweithredu y rhaglen hon, a llunio rhaglen y flwyddyn nesaf fel a ganlyn:

2.2 Mae saith maes hyfforddi wedi eu dynodi yn deitlau craidd ar gyfer Aelodau Etholedig. Rhain yw y teitlau sy’n fwyaf allweddol er mwyn caniatáu Aelodau Etholedig i gyflawni eu rôl yn effeithiol, a hynny o fewn ffiniau cyfreithiol.

- Cod Ymddygiad
- Gwybodaeth am bobl: Eich cyfrifoldeb chi
- Arwain yn ddiogel a diogelwch personol
- Eich cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb
- Deddf Llesiant a chenedlaethau’r dyfodol
- Eich dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol
- Diogelu Plant and Oedolion

2.3 Y disgwyl felly yw bod pob Aelod yn mynychu y digwyddiadau yma fel isafswm, ac fod unrhyw hyfforddiant y tu hwnt i hynny yn cefnogi y sesiynau craidd, allweddol yma.

2.4 Mae’n ddyletswydd arnom i amlygu fod niferoedd sydd wedi cwblhau y teitlau uchod yn parhau yn eithaf isel o ystyried bod rhai o’r teitlau ar gael ers nifer o flynyddoedd bellach, ac wedi eu cynnig mewn sawl ffurf h.y. wyneb yn wyneb, rhithiol a sesiynau fin nos.

| Teitl | Nifer wedi mynychu | Nifer sydd angen mynychu |
|---|---|---|
| Cod Ymddygiad | 39 | 29 |
| Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi | 45 | 23 |
| Arwain yn Ddiogel a Dioglewch Personol | 44 | 24 |
| Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb | 27 | 41 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 14 | 54 |
| Ein Dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol | 39 | 29 |
| Diogelu Plant ac Oedolion | 33 | 35 |

2.5 Y prif gonsyrn am y sefyllfa yma yn amlwg, yw'r ffaith na fydd aelodau sydd ddim wedi mynychu wedi derbyn gwybodaeth allweddol i'w rôl. Ond, yn ogystal a hynny, mae'r sefyllfa yn llesteirio ymdrechion i symud y rhaglen hyfforddiant ehangach yn ei blaen gan fod rhaid parhau i drefnu sesiynau ar y teitlau craidd hyn. Mae hyn nid yn unig yn bwyta mewn i amser y rhaglen, ond hefyd yn ofyn ar amser Swyddogion. Mae cyrsiau niferus yn gorfod cael eu canslo funud olaf oherwydd nifer yr ymddiheuriadau neu ddiffyg enwau wedi cofrestru.

2.6 Mater arall sy'n codi yw fod nifer uchel o geisiadau yn cyrraedd am bob math o sesiynau, a hynny o sawl cyfeiriad ac ar wahanol amseroedd o fewn y flwyddyn e.e. Adrannau y Cyngor, gan Aelodau eu hunain, a chyfleon gan gyrff allanol megis CLlLC, Data Cymru ayb. Mae'n gwneud gosod rhaglen bendant am y flwyddyn ar gychwyn y flwyddyn bron a bod yn amhosibl.

2.7 Mae hyn hefyd wedi arwain at sylwad gan ambell Aelod fod y rhaglen yn drwm, a hefyd at yr un broblem a nodir uchod, sef fod sesiynau yn cael eu trefnu a gorfod cael eu canslo funud olaf oherwydd diffyg niferoedd.

2.8 Teimlir fod y sefyllfa uchod yn anghynaladwy ac felly y bwriad ar gyfer y flwyddyn i ddod yw i resymoli rhywfaint ar y cynigion, a blaenoriaethu yn glir. I'r perwyl hwn, mae ymgynghori wedi bod gyda Penaethiaid Adran a bydd rownd arall o'r teitlau craidd yn cael eu trefnu gogyfer 24/25.

2.9 Nid yw hyn i ddweud na fydd modd cyfarch gofynion wrth symud ymlaen, dim ond y bydd rhesymoli ac amseru darpariaeth yn ôl capasiti.

***Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y trefniadau hyfforddiant, cynnig sylwadau a cymeradwyo y camau a gynigir.***

**ATODIAD 1**

# RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

# ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME

**Ysrifen sy'n ymddangos yn dywyll – Digwyddiadau "Craidd" / Bold type – 'Core Titles' – Pwysig Mynychu**

Ysgrifen cyffredinol – Digwyddiadau "Dewisiol" / General type – Optional titles

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| **Mai 3 May** | **(3:00 – 5:00)** | **Ein dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol**<br>**Our duties as Corporate Parents** | **Rhithiol / Virtual** | **Marian Parry Hughes, Aled Gibbard, Elenid Glyn** |
| Mai 12 May | (10:00 – 1:00) | Rhagfarn heb Wybod \| Unconscious Bias<br>*Llefydd yn gyfyngedig i 12 / Limited spaces of 12)* | Ystafell Ddysgu Enlli Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu, Caernarfon | Iwan Wyn Jones, Ffion Bryn Jones |
| Mehefin 5 + 7 June | (9:30 – 12:30<br>(1:30 – 4:30) | Carbon Literacy (ar gyfer Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau Craffu / For Cabinet Members and Scrutiny Chairs) | Rhithiol / Virtual | Cynnal Cymru |
| Mehefin 7 June | (10:00 – 11:30) | Canlyniadau'r Cyfrifiad<br>Census Results | Rhithiol / Virtual | Emyr Edwards |
| Mehefin 9 June | (10:00 – 12:00) | Gwynedd Oed Gyfeillgar a Ffrindiau Dementia<br>Age Friendly Gwynedd and Dementia Friends | Wyneb i Wyneb<br>Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth Memorial Hall | Emma Quaeck |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mehefin 10 June | (2:00 – 3:00) | Helpu pobl gyda'r argyfwng costau byw<br><br>Helping people with the cost of living crisis | Rhithiol / Virtual | Megan Meeke |
| Mehefin 21 June | (10:00 – 13:00) | Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a hunan laddiad<br><br>Mental Health and suicide awareness | Rhithiol / virtual | Meinir Evans (Hwb Cymunedol Felin Fach Pwllheli) |
| Mehefin 29 June | (4:00 – 5:30) | Sesiwn Codi Ymwybyddiaeth: Cyfarwyddyd Erthygl 4 (Ail gartrefi a llety gwyliau)<br><br>Session to Raise Awareness: Article 4 Direction (Second homes and holiday accommodation) | Rhithiol / virtual | Gareth Jones/Keira Sweeney, a Swyddogion Amrywiol / Various officers |
| Gorffennaf 3 July | (10:00 – 11:30) | Hyfforddiant Data 101 i Gynghorwyr : Cyflwyniad i ddeall a defnyddio Data / Data 101 training for Councillors – Introduction to understanding & using Data | Rhithiol / virtual | Roisin Roberts (Data Cymru) |
| Gorffennaf 18 July | (2:00 – 4:00) | Sipsiwn a Theithwyr - Hyfforddiant Sensitifrwydd Diwylliannol / Gypsies & Travellers - Cultural sensitivity training | Rhithiol / virtual | Jay Harley (Gypsies & Travellers Wales) |
| Medi 6 & 20 September | (9:30 – 12:30) | *Siarad yn Gyhoeddus / Public Speaking*<br><br>*(Llefydd yn gyfyngedig i 6 / Limited spaces of 6)* | Wyneb i wyneb a Rhithiol<br><br>Face to face & virtual | Sglein |
| Medi 20 September | (1:30 – 4:30) | Pendantrwydd / Assertiveness | Ystafell Deudraeth, Penrhyndeudraeth | Sglein |
| Hydref 4 October | (2:00 – 3:00) | Recriwtio yn maes gofal / Recruiting into the care sector | Rhithiol / Virtual | Gill Paul + Gwenno Angharad Williams |
| Hydref 5 October | (3:00 – 4:00) | Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu ar ystyriaethau cyfreithiol wrth Gadeirio Pwyllgorau Craffu<br><br>Training for Chairs & Vice Chairs of Scrutiny Committees on legal considerations when chairing Scrutiny Committees | Rhithiol / Virtual | Sion Huws |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Hydref 11 October | (10:00 – 11:30) | Adran Oedolion - Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau canlyniadau da i bobl Gwynedd<br><br>Adult Department – Working together to ensure good outcomes for the people of Gwynedd | Rhithiol / Virtual | Meilys Smith, Catrin Thomas, Mari Wynne |
| Hydref 18 October | (2:00 – 3:30) | Troseddu Cyfundrefol – Gangiau Cyffuriau - Llinellau Sirol<br><br>Organised Drug Gangs - County Lines | Rhithiol / Virtual | Trystan Davies, Heddlu Gogledd Cymru / North Wales Police |
| Tachwedd 15 November | (3:30 – 4:30) | Ymwybyddiaeth Seibr<br><br>Cyber Ninja Awareness | Rhithiol / Virtual | Llywodraeth Cymru / Welsh Government |
| **Ionawr 24 January** | **(2:00 – 4:00)** | **Ein dyletswyddau fel rhieni corfforaethol (I bawb sydd heb fynychu)**<br><br>**Our duties as corporate parents (for those who haven't attended)** | **Rhithiol / Virtual** | **Aled Gibbard, Elenid Glyn, Ffion Edwards Ellis, Lisa Marie Thompson, Meinir Llwyd Bebb** |
| **Chwefror 2 February** | **(2:00 – 4:30)** | **Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb**<br><br>**Your Responsibility for Equality** | **Rhithiol / Virtual** | **Delyth Gadlys Williams/Gwenno Mair Griffith** |
| Chwefror 9 February | (10:00 – 12:00) | Hyfforddiant Grwp 6 – Trais yn erbyn menywod<br><br>Group 6 Training – Violence against Women | Rhithiol / Virtual | Cymorth i Ferched Cymru<br><br>Welsh Women's Aid |
| Chwefror 29 February | (10:00 – 12:00) | Hyfforddiant Grwp 6 – Trais yn erbyn menywod<br><br>Group 6 Training – Violence against Women | Wyneb i wyneb / Face to face<br><br>Ystafell Ddysgu Deudraeth Learning Room, Y Ganolfan Alw/ The Call Centre, Penrhyndeudraeth | |
| | | | | |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Chwefror 21 February** | **(10:00 – 12:30)** | **Hyfforddiant Cod Ymddygiad a Buddiannau**<br><br>**Code of Conduct & Benefits Training** | **Rhithiol / Virtual** | **Iwan Evans** |
| Chwefror 28 February | (2:00 – 3:40) | Diogelwch Personol i Gynghorwyr<br><br>Personal Safety for Councillors | Rhithiol / Virtual | CLlLC / WLGA |
| Mawrth 5 March | (2:00 – 3:40) | Ymdrin â chamdriniaeth a bygythiadau ar-lein<br><br>support with issues of abuse and intimidation | Rhithiol / Virtual | CLlLC / WLGA |
| Mawrth 13 March | (9:30 – 10:30) | Cynllun Graddedigion a Phrentisiaethau – Cyflwyniad i ddeall am y cyfleon i bobl newydd<br><br>Apprenticeships & Graduates Scheme – Presentation to understand the opportunities for the people of Gwynedd | Rhithiol / Virtual | Alun Lloyd Williams / Laura Evans / Saran Edwards |
| Mawrth 13 March | (4:30 – 6:00) | Arfer Gorau Pwyllgor Craffu<br><br>Best Practice Committee Scrutiny | Rhithiol / Virtual | David McGrath<br><br>Link UK Ltd |
| Mawrth 14 March | (10:00 – 12:00) | Cyflwyniad i wrth-hiliaeth<br><br>Introduction to anti-racismq | Rhithiol / Virtual | Sean Wharton & Sunil Patel<br><br>CLlLC / WLGA |
| Mawrth 20 March | (10:00 – 11:30) | Arfer Gorau Pwyllgor Craffu<br><br>Best Practice Committee Scrutiny | Hybrid + Ystafell Daron Room<br><br>+ Teams | Arwel Ellis Jones |
| **Ebrill 9 April** | **(2:00 – 4:30)** | **Cod Ymddygiad**<br><br>**Code of Conduct** | **Rhithiol / Virtual** | **Iwan Evans** |
| Ebrill 17 April | (10:00 – 11:00) | Rhaglen Arweiniad Arian<br><br>Money guiders Programme | Rhithiol / Virtual | Rhian Hughes |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (11:30 – 12:30) | Uchafu Incwm<br><br>Income Maximisation | Rhithiol / Virtual | Megan Meeke |
| I'w gadarnhau maes o law<br><br>To be confirmed in due course | Hybu'r Gymraeg – Rol i bawb<br><br>Promoting the Welsh – A role for everyone | Rhithiol / Virtual | Llywela Haf Owain Williams |
| I'w gadarnhau maes o law<br><br>To be confirmed in due course | Cyfarfod Cyngor Cyswllt Cymru – Gweithdai / Wales Contact Council Meeting – workshops | I'w gadarnhau / To be confirmed | CLlLC / WLGA |

**Ysgrifen sy'n ymddangos yn dywyll – Digwyddiadau "Craidd" / Bold type – 'Core Titles' – Pwysig Mynychu**

Ysgrifen cyffredinol – Digwyddiadau "Dewisiol"  / General type – Optional titles

**ATODIAD 2**

# RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

# ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME

**Ysgrifen sy'n ymddangos yn dywyll – Digwyddiadau "Craidd" / Bold type – 'Core Titles' – Pwysig Mynychu**

Ysgrifen cyffredinol – Digwyddiadau "Dewisiol" / General type – Optional titles

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| **Mai 1 May** | **(10:00 – 11:00)** | **Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi (I bawb sydd heb fynychu)**<br>**Information about People : Your Responsibility (For everyone who hasn't attended)** | **Rhithiol / Virtual** | **Helen Mary Parry** |
| Mai 15 May | (10:00 – 11:30) | Hyfforddiant i Gadeiryddion a darpar Gadeiryddion Pwyllgorau<br>Training for Chairs & prospective Chairs of Comittees | Rhithiol / Virtual | Sion Huws |
| **Mai 21 May** | **(2:00 – 3:30)** | **Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol**<br>**(I bawb sydd heb wneud yr Hyfforddiant)**<br>**Safe Leadership & Personal Safety**<br>**(For everyone who hasn't completed the training)** | **Rhithiol / Virtual** | **Gail Ann Warrington** |
| **Mehefin 7 June** | **(10:00 – 11:00** | **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**<br>**Future Generations and Wellbeing Act** | **Rhithiol / Virtual** | **Dewi Wyn Jones a Sandra Lynne Thomas** |
| **Mehefin 26 June** | **(10:00 – 12:00)** | **Ein dyletswyddau fel rhieni corfforaethol (I bawb sydd heb fynychu)**<br>**Our duties as Corporate Parents (for everyone who hasn't attended)** | **Rhithiol / Virtual** | **Marian Parry Hughes, Aled Gibbard, Elenid Glyn, Lisa Marie Thompson, Meinir Llwyd Bebb** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf 17 July** | **(10:00 – 11:00)** | **Diogelu Plant ac Oedolion**<br><br>**Safeguarding Children and Adults** | **Rhithiol / Virtual** | **Dafydd Paul a Mannon Trappe** |
| Medi 4 September | (10:00 – 11:30)<br><br>(1:00 – 3:00) | Gwasanaethau Ataliol yng nghymunedau Gwynedd a Gofalwyr di-dâl<br><br>Preventive Services in Gwynedd communities and Unpaid Carers<br><br>Sgyrsiau Oed Gyfeillgar<br><br>Age Friendly Conversations | Wyneb i wyneb (Lleoliad i'w gadarnhau)<br><br>Face to face (venue to be confirmed)l | Alun Gwilym Williams, Meilir Price Owen a Jessica Mullan, Sian Wyn Griffiths, |

**Ysgrifen sy'n ymddangos yn dywyll – Digwyddiadau "Craidd" / Bold type – 'Core Titles' – Pwysig Mynychu**

Ysgrifen cyffredinol – Digwyddiadau "Dewisiol" / General type – Optional titles